# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanycil

Nos Fercher, Mai 25ain 2022 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Huw Charles (is-gadeirydd), Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Arwel Davies, Rhys Richards, Jean Roberts, a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Geraint Davies, Euros Puw a'r Cyng. Elwyn Edwards

i) Croesawu'r cynghorwyr - **GWBLHAWYD Y FFURFLENNI DERBYN SWYDD A DATGAN BUDDIANT. GOFYNNWYD I'R CLERC ANFON LLYTHYR O DDIOLCH I GWYNEDD JONES AM EI YMRODDIAD I'R CYNGOR DROS YR HOLL FLYNYDDOEDD.**

ii) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd, cyfethol aelod newydd
**A) ETHOLWYD EUROS PUW FEL CADEIRYDD A HUW CHARLES YN IS-GADEIRYDD. GAN NAD OEDD EUROS PUW YN BRESENNOL CYTUNODD HUW CHARLES I GADEIRIO'R CYFARFOD.**
**B) CYTUNWYD I ARDDANGOS YR HYSBYSIAD CYFETHOL AM Y CYFNOD PENODOL A THRAFOD UNRHYW GEISIADAU YN Y CYFARFOD NESAF YM MIS GORFFENNAF.**

iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau:- **ADOLYGWYD A CHAFWYD YN GYWIR.**
Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Partneriaeth Penllyn: Geraint Davies, Jean Roberts.
Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: Geraint Davies.

iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor - **CYMERADWYWYD**

v) Cyfrifon 2021-22 - **CYMERADWYWYD**

vi) Archwiliad Blynyddol y Cyngor - **ROEDD CYNGOR GWYNEDD WEDI ARCHWILIO'R CYFRIFON A CHAFWYD CADARNHAD I SICRWYDD YN NHREFNIADAU LLYWODRAETHU A DATGANIADAU CYFRIFYDDU'R CYNGOR.**

vii) Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2022/23 - **COFNODWYD Y LLYTHYRAU A DDERBYNIWYD GAN Y CYNGHORWYR YN CADARNHAU NAD OEDDYNT AM HAWLIO UNRHYW GYDNABYDDIAETH ARIANNOL.**

viii) Adolygu Asedau – **ADOLYGWYD A CHAFWYD YN GYWIR.**

ix) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor - **ADOLYGWYD A CHAFWYD YN GYWIR.**

x) Cynllun Hyfforddiant **- GWNAED ASESIAD O ANGHENION HYFFORDDIANT Y CYNGHORWYR PRESENNOL A'R CLERC A BE FYDDAI AR GAEL I UNRHYW GYNGHORWYR NEWYDD A FYDDAI'N YMUNO A'R CYNGOR.**